# SL(6)548 – Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2024

## Cefndir a diben

Mae Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2024 ("y Rheoliadau hyn") yn diwygio Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Ffioedd) (Cymru) 2016 ("y Rheoliadau Ffioedd") i ddarparu bod y ffi i Weinidogion Cymru benderfynu ar geisiadau ar gyfer prosiectau cynhyrchu trydan o dan 50MW yn daladwy dim ond pan fydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu ar y cais o ganlyniad i gyfarwyddyd o dan baragraff 9 o Atodlen 4D i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, mae'r diwygiad a wneir gan y Rheoliadau hyn yn ganlyniadol ar ddiwygiadau y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu eu gwneud mewn rheoliadau yn y dyfodol, sef Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) (Diwygio) 2024 ("Rheoliadau'r Dyfodol"). .

## Y weithdrefn

Cadarnhaol drafft

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau hyn oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliad 2(c) o'r Rheoliadau hyn yn mewnosod nifer o dermau diffiniedig yn rheoliad 12(10) o'r Rheoliadau Ffioedd.  Yn benodol, mae'r ddarpariaeth hon yn darparu, at ddibenion rheoliad 12, bod "Rheoliadau 2016" yn golygu Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Meini Prawf Penodedig a Chydsyniadau Eilaidd Rhagnodedig) (Cymru) 2016.

Mae rheoliad 2(1) presennol o'r Rheoliadau Ffioedd yn cynnwys diffiniadau sy'n gymwys i'r Rheoliadau hynny i gyd.  Yn benodol, mae rheoliad 2 yn darparu bod "Rheoliadau 2016" yn golygu Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) 2016.

Mae'n ymddangos bod y diwygiad a wneir gan reoliad 2(c) o'r Rheoliadau hyn yn cael yr effaith gyfreithiol ddymunol, oherwydd bydd y diffiniad penodol o "Rheoliadau 2016" at

ddibenion rheoliad 12 yn disodli'r diffiniad cyffredinol o "Rheoliadau 2016" a fyddai fel arall yn gymwys yn unol â rheoliad 2(1).

Fodd bynnag, gallai rhoi ystyron gwahanol i'r un term o fewn yr un set o Reoliadau achosi dryswch i'r darllenydd (gweler Drafftio Deddfau i Gymru yn 4.4(6)), yn enwedig pan nad yw rheoliad 2(1) presennol wedi'i ddiwygio i adlewyrchu'r ffaith nad yw'r diffiniad cyffredinol yn gymwys at ddibenion rheoliad 12 (gweler Drafftio Deddfau i Gymru yn 4.5(8)).

Gofynnir i Lywodraeth Cymru esbonio pam y dewisodd ddefnyddio term sydd eisoes ag ystyr gwahanol mewn rhan arall o'r Rheoliadau Ffioedd, yn hytrach na chreu term newydd, a fyddai wedi bod yn gliriach i'r darllenydd.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae paragraff 2.1 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r canlynol:

> *Bydd gwneud Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol(Cymru) (Diwygio) 2024 yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd i Reoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2024, ac os cânt eu cymeradwyo, rhagwelir y bydd y ddwy set o Reoliadau yn cael eu gwneud ar yr un pryd ar 11 Rhagfyr.*

Gofynnir i Lywodraeth Cymru pam mae angen **gwneud** y ddwy set o Reoliadau ar yr un pryd, pan fyddai modd rheoli unrhyw angen i gydlynu cychwyn darpariaethau drwy ddarpariaethau dod i rym yn y Rheoliadau perthynol.

Gofynnir hefyd i Lywodraeth Cymru gadarnhau nad yw'n bwriadu gohirio llofnodi'r Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru os cânt eu cymeradwyo gan y Senedd, a hynny er mwyn cyd-fynd â gwneud Rheoliadau'r Dyfodol.

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae paragraff 2.2 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r canlynol:

> *Mae'r diwygiad a wneir gan Reoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2024 yn ganlyniadol ar Reoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) (Diwygio) 2024. Ni fyddai'n bosibl dehongli'r effeithiau rheoliadol a wneir gan bob offeryn statudol ar wahân heb esbonio'r cyd-destun deddfwriaethol ehangach.* Felly, lluniwyd Memorandwm Esboniadol cyfansawdd i ddisgrifio'r offerynnau statudol hyn.

Mae gwaith craffu'r Pwyllgor ar y Rheoliadau hyn wedi'i wneud yn fwy anodd gan y ffaith nad yw Gweinidogion Cymru wedi gosod Rheoliadau'r Dyfodol ar yr un pryd, er mwyn

galluogi'r Senedd i ystyried manylion llawn y polisi y gofynnir iddi ei gymeradwyo. Nid yw'r wybodaeth gyfyngedig a ddarperir yn y Memorandwm Esboniadol yn opsiwn gwell na thestun Rheoliadau'r Dyfodol eu hunain.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn disgrifio'r Rheoliadau hyn fel bod yn ganlyniadol ar ddiwygiadau sydd i'w gwneud yn Rheoliadau'r Dyfodol. Mae'n ymddangos felly bod y manylion polisi allweddol wedi'u cynnwys yn Rheoliadau'r Dyfodol yn hytrach nag yn y Rheoliadau hyn. Yng ngoleuni hyn, gofynnir i Lywodraeth Cymru:

a. Pam na chafodd Rheoliadau'r Dyfodol eu gwneud a'u gosod ar yr un pryd â gosod y Rheoliadau hyn ar ffurf drafft gerbron y Senedd, gyda darpariaethau dod i rym yn cyd-fynd â hyn?

b. Os oes rheswm pam na allai'r Rheoliadau hyn a Rheoliadau'r Dyfodol fod wedi'u gosod ar yr un pryd, gofynnir i Lywodraeth Cymru pam na allai'r ddwy set o Reoliadau fod wedi'u cyfuno'n unol ag adran 40 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019. ("Deddf 2019")?

c. Os na fyddai modd defnyddio adran 40 o Ddeddf 2019, gofynnir i Lywodraeth Cymru esbonio pam na chafodd Rheoliadau'r Dyfodol, sy'n cynnwys y newid polisi allweddol, eu gwneud a'u gosod yn gyntaf, er mwyn i'r Senedd allu dewis a ddylid dirymu'r Rheoliadau hynny cyn ystyried a ddylid cymeradwyo'r newidiadau canlyniadol i'r drefn ffioedd y darperir ar eu cyfer gan y Rheoliadau hyn?

4. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodir nad oedd y Rheoliadau hyn yn destun ymgynghoriad ffurfiol am y rhesymau a nodir ym mharagraff 5.1 o'r Memorandwm Esboniadol. Yn benodol, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod amser y newid a wneir gan y Rheoliadau hyn yn gyfyngedig, gan y bydd y system datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol yn cael ei disodli pan ddaw Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 i rym.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i bwyntiau adrodd 1 i 3.

**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2024**

<u>Pwynt Craffu Technegol 1:</u> Mae'r Llywodraeth yn derbyn y gallai rhoi ystyron gwahanol i'r un term o fewn yr un set o Reoliadau ddrysu'r darllenydd ac y byddai wedi bod yn gliriach creu term newydd. Fel y nodwyd yn adroddiad drafft y Pwyllgor, bydd y diffiniad penodol yn rheoliad 12 o Reoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Ffioedd) (Cymru) 2016 yn drech na'r diffiniad cyffredinol yn rheoliad 2 o'r Rheoliadau hynny. Felly, mae'r diwygiad yn cael yr effaith gyfreithiol a ddymunir.

Pwynt Craffu ar Rinweddau 2: Mae'r Llywodraeth yn cytuno ei bod yn bosibl i'r ddwy set o Reoliadau ddod i rym ar yr un diwrnod heb iddynt gael eu gwneud ar yr un pryd. Fel y nodir yn ymateb y Llywodraeth i bwynt Craffu ar Rinweddau 3, mae Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) (Diwygio) 2024 ("Rheoliadau'r Dyfodol") wedi eu gosod cyn dadl y Senedd ar y Rheoliadau hyn a'r bwriad yw y bydd y ddau yn dod i rym ar 6 Ionawr 2025.

Pwynt Craffu ar Rinweddau 3: Rydym yn cydnabod pryder y Pwyllgor ei bod wedi bod yn anos craffu ar y Rheoliadau hyn am nad yw Rheoliadau'r Dyfodol wedi eu gosod. Felly, rydym yn cadarnhau bod Rheoliadau'r Dyfodol wedi eu gosod cyn dadl y Senedd ar y Rheoliadau hyn, ac o ganlyniad, mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau hyn wedi ei dynnu yn ôl a'i ail-osod.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn gydag ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 3 Rhagfyr 2024 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.